**Rebecca Evans AC**
y Gweinidog Tai ac Adfywio
Llywodraeth Cymru

26 Mehefin 2018

Annwyl Rebecca

**Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru)**

Diolch ichi am ddod i'n cyfarfod ar 21 Mehefin i roi tystiolaeth mewn cysylltiad â'n gwaith craffu ar y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc) (Cymru).

Yn y cyfarfod fe wnaethoch gytuno i ddarparu rhagor o fanylion am:

- Asesiad o'r dystiolaeth a ystyriwyd yn San Steffan wrth graffu ar y Bil Ffioedd Tenantiaid bod cynnydd o 4.2 y cant mewn rhent yn yr Alban pan basiwyd deddfwriaeth gyfatebol o'i gymharu â gostyngiad o 0.7 y cant yn Lloegr dros yr un cyfnod.
- A yw'r ddarpariaeth yn Atodlen 2, paragraff 3, is-is-baragraff (b), yn ddigonol i ymdrin ag achosion pan fydd landlord / asiantaeth yn torri'r cytundeb hwn, yn arbennig mewn achosion pan fydd myfyrwyr yn diogelu eiddo fisoedd cyn symud i'r eiddo a bod y cytundeb yn ddarostyngedig i waith pellach gan y landlord.
- A ddylai dirwyon a roddwyd gan y Llysoedd i'r rhai sy'n torri'r Bil fynd i awdurdodau lleol, fel gyda hysbysiadau cosb benodedig.

Ar ddiwedd y cyfarfod, dywedais y buaswn hefyd yn ysgrifennu atoch gyda rhai cwestiynau technegol a chwestiynau drafftio na chawsant eu cyrraedd yn ystod y sesiwn dystiolaeth. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi ymateb i'r canlynol:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

- Mae Adran 4 yn cyfeirio at "waith asiantaeth gosod eiddo". Mae Adran 8 yn cyfeirio'n syml at "waith gosod" sef y term a ddefnyddir yn Neddf Tai (Cymru) 2014. Pam hynny?
- O dan Adrannau 2(6), 3(5) ac 17, a ddylai'r Bil ei gwneud yn ofynnol talu llog hefyd neu a fyddai llys yn dyfarnu llog yn awtomatig?
- Mae Adran 2(3) yn caniatáu i landlordiaid ei gwneud yn ofynnol i berson ymrwymo i gontract am wasanaethau fel amod o roi neu o adnewyddu contract meddiannaeth neu barhau â chontract o'r fath lle mae'r contract am wasanaethau yn rhoi'r hawl i feddiannu annedd. A allech chi egluro pwrpas y ddarpariaeth hon a pham nad oes darpariaeth gyfatebol yn Adran 3?
- Mae darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn perthynas â hysbysiad o dan Adran 10 yn drosedd os yw person yn "ddi-hid ynghylch pa un a yw'n anwir neu'n gamarweiniol". Beth oedd y rhesymeg wrth wraidd pennu "di-hid" fel y trothwy ar gyfer Adran 12(1)(b) a 12(2)(a)? Pam na ddewiswyd trothwy is esgeulustod?

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ymateb erbyn **7 Medi** mewn pryd i lywio cam nesaf ein gwaith o graffu ar y Bil.

Yn gywir

John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.